

# Arloesydd y Llaw-fer yn Gymraeg

gan D. Ben Rees

**U**n o gefnogwyr pennaf y Gymraeg yn ei ddydd oedd Griffith Griffiths, y Cymro brwdfrydig a fu'n gweithio i gwmni rheilffordd y *Cheshire Lines* o 1875 hyd 1925. Y mae ysgrif ddiddorol amdano yn y *Brython* ar 26 Mawrth 1925 (tudalen 5) o dan y teitl, *Hanner Canrif ynglŷn â'r Ffordd Haearn*.

Dylanwadwyd yn gynnar arno gan y gweinidog o Fethodist Calffinaidd, Y Parchedig Robert Ambrose Jones (Emrys ap Iwan, 1851-1906). Ym mlwyddyn ei ordeiniad yn 1883 fe wahoddwyd Emrys ap Iwan i draddodi darlith i Gymry alltud Eccles, ger Manceinion ar y Clasuron Cymraeg. Enillwyd Griffith Griffiths, yn llwyr gan ei ymresymiad ac ni fu bywyd byth yr un fath iddo. Prynodd y noson honno gyfrol a werthid gan Emrys ap Iwan, sef ei lyfr gramadeg Cymraeg a gyhoeddwyd ddwy flynedd yn gynharach.

## Amddiffyn Y Dinesydd

Cafodd G. Griffiths ei wahodd yn 1890 i'r dasg o amddiffyn papur Cymraeg o'r enw *Y Dinesydd* a oedd mewn dyfroedd dyfnion. Apwyntiwyd ef yn Ysgrifennydd y pwyllgor Amddiffyn. Rhai o aelodau eraill y Pwyllgor oedd y pregethwr llyg adnabyddus gyda'r Annibynwyr Cymraeg ar lannau'r Mersi, Edmund Griffiths, Grove Street a fu am gyfnod yn gofalu ar ôl un o gapeli Cymraeg Ashton-in-Makerfield, ynghyd ag R. W. Thomas, T. L.

Jones, T. L. Asken, Gwilym Alltwn a'r englynwr, Gwaenys.

Llwyddwyd i gadw *Y Dinesydd* yn fyw hyd nes i Isaac Foulkes (Llyfrbryf), un o gyhoeddwyd pennaf y Gymraeg yn Lerpwl, gychwyn y papur wythnosol, *Y Cymro*.

## Cyfeillgarwch gyda Llyfrbryf

Meddyliai Griffith Griffiths yn fawr o Isaac Foulkes. Daeth y rhifyn cyntaf o'r *Cymro* allan ar 22 Mai 1890. Y roedd gan Isaac Foulkes gylch eang o gyfeillion fel G. Griffiths, pobl o'r un diddordebau ag ef ei hun ym myd llenyddiaeth Gymraeg, a hefyd ffrindiau o wahanol diddordebau ac argyhoeddiadau mewn meysydd eraill. Er enghraifft, bu ef yn ffrind mawr i'r emynydd a'r heddychwyr, Eleazar Roberts, Hoyleake, a oedd ar flaen y gad, ac a luniodd yn 1906 gofiant gwerthfawr i Henry Richard yr Apostol Heddwch.

Cymwynas arall a gyflawnodd Griffith Griffiths o 1900 i 1910 oedd trefnu darlithiau ysgolheigaidd ar gyfer Cymry Lerpwl o dan nawdd Prifysgol Lerpwl. Gwyddom iddo yn 1902, o dan nawdd y Gymdeithas Lengar fel y'i gelwid, gael cyfres o ddarlithiau gan yr ysgolhaig, John Morris-Jones, Bangor, ar y bardd Goronwy Owen. Bu'r gyfres hon yn hynod o lwyddiannus. Ac fel canlyniad i'r gyfres trefnodd Griffith Griffiths wibdaith o Lerpwl i fro Goronwy ym Môn. Trwy ei gysylltiadau gyda'r rheilffordd, trefnodd drên arbennig o Lerpwl i Lannerchymedd, ac yna cerbydau i gludo'r teithwyr o Lanbedrgoed. Llangallo a Phentre

Eirianell, a daeth cannoedd o Gymry Lerpwl i weld bwthyn Rhos-fawr ym mhlwyf Llanfair Mathafarn Eithaf, lle ganwyd y bardd ar Galan Ionawr 1723.

## Esperanto

Diddordeb mawr arall Griffith Griffiths, a'i fab Richard Prys Griffiths, oedd astudio a thrafod yr iaith wneud, Esperanto, iaith a ddylai fod, yn ei dyb ef, yn iaith holl drigolion y byd. Daeth yn ŵr pwysig trwy Sir Gaerhirfryn am ei ddiddordeb yn Esperanto. Erbyn 1909 dechreuodd gyhoeddi yn Gymraeg hanes yr iaith hon, a bu'n ddyfal yn cyfathrebu, nid yn unig â'r Cymry, ond hefyd â'r Llydawyr yn Ffrainc. Trefnodd Eisteddfodau trwy gyfrwng Esperanto a siaradai ef a'i fab yr iaith. Mae gennyf ragleni o'r Eisteddfodau hynny.

Camp arall o'i eiddo ef oedd meistrolï crefft y llaw-fer, a daeth ei fab yr un mor feistrolgar. Yn wir, erbyn 1907, yr oedd Richard Prys Griffiths yn cynnal dosbarth llaw-fer yn Gymraeg bob wythnos yn Garston, lle yr oedd tri chapel Cymraeg llewyrchus, a thrwy hynny gallwn ddweud fod yna gymuned gref o Gymry Cymraeg yn byw yno. Roedd Garston yn gyfleus iddynt ac i gapel y Methodistiaid Calffinaidd yn y pentref y perthynai'r teulu iddo a hynny yn ystod gweinidogaeth y Parchedig J. D. Evans. Trigai'r teulu yn Gresington, y faestref affliwent sydd agosaf at Garston o gyfeiriad Lerpwl. Ysgrifennodd y tad a'r mab y Beibl i gyd, 66 o lyfrau, mewn llaw-fer. Dyma gamp anhygoel, a champ arall oedd cyhoeddi a golygu'r cylchgrawn *Phonograffia*, yr unig cylchgrawn llaw-fer y gwn i amdano yn yr iaith Gymraeg.

Byddai Griffith Griffiths yn falch o *Y Casglwr* ac yn sicr wedi anfon iddo rai o gyhoeddiadau'r llaw-fer ac Esperanto i fagu blas yn y darllenwyr.

# SIOP LYFRAU'R HEN BOST

45 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3AA

Ffôn: 01766 831802 E-bost elin.henbost@virgin.net

## LLYFRAU NEWYDD, AIL-LAW A HYNAFIAETHOL

- |   |   |
|---|---|
| 1. Ashton' John (cyf): Achos Rhyfedd Dr Jekyll a Mr Hyde, dd. . . . £4.00                                 | 26. Edwards, Hywel Teifi: Llynfi ac Afan, Garw ac Ogwr, 1998 . . . . £34.50 |
| 2. Islwyn ap Nicholas: R. J. Derfel, Welsh Rebel Poet and Preacher, dd. . . £4.00                         | 27. Huws, Daniel(gol.): Llyfr Aneirin, ffacsimili 1889 . . . . . £50.00     |
| 3. Jenkins, Dan ac Ap Ceredigion: Cerddi Cerngoch, 1904, . . . £8.50                                      | 28. Thomas, Flora: The Builders of Miford, 1920 . . . . . £17.50            |
| 4. Watkins, T. Arwyn: Ieithyddiaeth, 1961 . . . . . £5.50   | 29. Morgan, Gerald: Y Dyn a Wnaeth Argraff, 1982 . . . . . £5.00            |
| 5. Lloyd, J. E.: Owen Glendower, adargraffiad 1992 . . . . . £5.00  | 30. Guest, Edwin: Origines Celticae, dwy gyfrol, 1883 . . . . . £85.00      |
| 6. Wil Ifan o Fôn: Bonedd y Cymry, 1916 . . . . . £10.00  |   |
| 7. Morrice, J. E.: Barddoniaeth William Llŷn, 1908 . . . . . £10.00                                       |   |
| 8. Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Bangor 1902, yn cynnwys <i>Ymadawiad Arthur</i> . . . . . £5.00 |   |
| 9. Slater, J. H.: The Established Church in Wales, dd. . . . . £12.00                                     |   |
| 10. Morgan, T. J.: Y Treigladau a'u Cystawen, 1952 . . . . . £10.00                                       |   |
| 11. Davies, R. R.: The Revolt of Owain Glyndwr 1996 . . . . . £15.00                                      |   |
| 12. Jones, Thomas: Beirdd Uwchaled 1903 . . . . . £7.00   |   |
| 13. Jones, C. Bryner: Egwyddorion Gwrteithio, 1897 . . . . . £4.50  |   |
| 14. Ellis, T. I.: Crwydro Ceredigion, 1953 . . . . . £6.00  |   |
| 15. Edwards, G. Lloyd: Mil o Ddyfyniadau Cymraeg 1968 . . . . . £4.50                                     |   |
| 16. Bradley, A. Granville: Owen Glyndwr, adargraff. 1978 . . . . . £6.50                                  |   |
| 17. Williams, Taliesin.: Coelbren y Brenin, 1840 . . . . . £20.00   |   |
| 18. Jones, M. O.: Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig, 1890 . . . . . £7.50                                  |   |
| 19. Hen Ganiadau Serch Cymdeithas Llên Cymru 3, 1902, . . . £17.50  |   |
| 20. Rees, Brinley:Dulliau'r Canu Rhydd 1500-1650, 1952 . . . . £3.50                                      |   |
| 21. Morris, William (gol.): Atgofion Dau Gymro, 1968 . . . . . £3.50                                      |   |
| 22. Celt: Cymru Fydd Gymru Rydd, The National Movement in Wales 1895 . . . . . £5.00                      |   |
| 23. Gwilym Alltwn (gol.): Y Ceinion Buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol 1878, . . . . . £4.00             |   |
| 24. North, F. J.: Coal and the Coalfields of Wales, 1926 . . . . £10.50                                   |   |
| 25. Williams, G. J. (gol.): Gramadeg Cymraeg Gruffydd Robert, 1939 . . £22.50                             |   |

### Mân Lyfrynnau a Phamffledi

- |   |
|---|
| 31. Levi, Thomas: Teithiau Cenhadol y Parch Dr. Livingstone, 1857, 49 tud. . . . . £7.00                                |
| 32. Hughes, Gruffydd: Cefn Gwlad, Rhifyn Coffa i Amryw o Wyr Enwog y Cylch 1953 . . . . . £3.00                         |
| 33. Lewis, Saunders: Local Authorities and Welsh Industry, 11 tud. . . £4.00  |
| 34. Pierce, T. T.: TVA and Wales 8 tud. . . . . £4.00   |
| 35. Evans, Owen: Eglwys Bresbyteraidd Cymru Heathfield Road, Liverpool, Hanes 1937-1962, 63 tud. . . . . £3.50          |
| 36. Jones, J. R.: A Raid i'r Iaith Ein Gwahanu?, 1967, 26 tud. . . . £3.50  |
| 37. Evans, Robert: Y Glust a'r Tafod, 1877, 64 tud. . . . . £10.00  |
| 38. Yorath, T. Tawenog: Dail y Glenydd, 1915, 88 tud. . . . . £3.00   |
| 39. Zion Congregational church Llanwnnog, Centenary 1926 ynghyd â nodiadau llawysgrif ychwanegol, 20 tud. . . . . £4.50 |
| 40. Rees, J. Seymour: Ffansi'r Ffin, 1922, llofnod Stephen J. Williams, 42 tud. . . . . £4.50                           |
| 41. Triad, Thirty Three poems by Peter Griffith, Harri Webb, Meic Stephens, 1963, 58 tud. . . . . £4.50                 |
| 42. Lloyd, D. T. a Jones, E. D.: Braslun o Hanes Ebenezer Llanybi, 1972, 31 tud. . . . . £3.00                          |
| 43. Davies, John: The Collegiate Church of Clynnog Fawr, 36 tud. . . £3.50  |

CLUDIANT YN YCHWANEGOL